# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

**EOC(3)-09-10 : Papur 1**

## Ymchwiliad i Hygyrchedd Gorsafoedd Rheilffordd - Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog Dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Pwrpas

1. Mae'r Papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar gyfer ei ymchwiliad i hygyrchedd gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru. Mae'n egluro sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni ei phwerau statudol a'r ffordd yr ydym yn mynd ati i gyflawni gwelliannau i'r rheilffyrdd yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw hygyrchedd rheilffyrdd, wedi ei ddatganoli. Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i ddarparu tystiolaeth ac yn edrych ymlaen at weld Adroddiad y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella hygyrchedd i bawb i bob dull trafnidiaeth a dim ond newydd gychwyn yr ydym ar yr hyn sy'n rhaglen waith hirdymor. Mae angen cydweithrediad a buddsoddiad gan randdeiliaid eraill ar gyfer hyn ac mae diddordeb o bob ochr mewn gwella hygyrchedd fel y gall pawb gael cyfle i deithio heb rwystrau.

### Cyfrifoldebau statudol rheilffyrdd

2. Yn ôl Deddf Rheilffyrdd 2005, datganolwyd rhai pwerau dros faterion rheilffyrdd yng Nghymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth i Weinidogion Cymru. Daeth y pwerau hyn i rym yn llawn o Ebrill 2006. Maent yn darparu'n bennaf:

Cyfrifoldeb fel cyd-lofnodwyr ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau, a ddyfarnwyd i Drenau Arriva Cymru gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol blaenorol yn 2003, gyda thymor hyd at fis Rhagfyr 2018. Nid yw'r fasnachfraint yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ystyrlon ar gyfer gwelliannau hygyrchedd nac ar gyfer cynnydd yn y galw gan deithwyr, fel y nodwyd ym mhapur tystiolaeth Trenau Arriva Cymru i'r Pwyllgor. Rhoddodd Deddf Rheilffyrdd 2005 bwerau i Weinidogion Cymru nodi ac ariannu gwasanaethau o dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweithredu gan Drenau Arriva Cymru ar hyn o bryd, o fewn Cymru neu i mewn ac allan ohoni ("Gwasanaethau Cymru"). Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n dal yn gyfrifol am y gwasanaethau hynny sy'n rhedeg yn gyfan gwbl yn Lloegr. Cafwyd trosglwyddiad Gwariant Cyhoeddus o'r Adran Drafnidiaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu cost y cymhorthdal sy'n daladwy i Drenau Arriva Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymru. Cadwodd yr Adran Drafnidiaeth y cyllid ar gyfer gwasanaethau Trenau Arriva Cymru yn Lloegr yn unig.

Y pŵer i fuddsoddi mewn gwelliannau rheilffyrdd sydd o fudd i Gymru. Nid oedd unrhyw drosglwyddiad Gwariant Cyhoeddus ar gyfer y pwerau hyn ac ariannwyd unrhyw fuddsoddiad o'r fath o Gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hun.

Gofyniad bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gosod unrhyw fasnachfreintiau eraill sy'n rhedeg i Gymru (gwasanaethau pellter maith i Abertawe/gorllewin Cymru, Caergybi a gwasanaethau Nottingham, er enghraifft).

3. Pan ddaeth pwerau Deddf Rheilffyrdd 2005 i rym yn 2006, blaenoriaethau uniongyrchol Gweinidogion Cymru oedd gwella prydlondeb a boddhad cwsmeriaid â deiliad presennol y fasnachfraint, yn ogystal â buddsoddi mewn cynlluniau gwella i ddiwallu'r cynnydd mewn galw ar hyn o bryd, a'r cynnydd mewn galw a ragwelir.

4. Yn 2006, comisiynwyd Asesiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru gennym, a oedd yn nodi'r rhagolygon o ran y galw yn y dyfodol ac yn darparu'r dystiolaeth sy'n sail i'r Flaenraglen Rheilffyrdd . Ers hynny, rydym wedi llwyddo i wella perfformiad o ran prydlondeb, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol erbyn hyn, ac mae ein cwsmeriaid hefyd yn fwy bodlon. Lansiwyd rhaglen ddwys o fuddsoddi cyfalaf mewn gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd gennym o dan y Flaenraglen Reilffyrdd sy'n cynnwys, er enghraifft, y cynlluniau pwysig sydd ar y gweill i adfywio Gorsaf Casnewydd a'r gwelliannau i Brif Linell y Cambrian. Mae llu o gynlluniau cyfalaf a gwelliannau eraill i wasanaethau wrthi'n cael eu datblygu.

5. Rydym yn dechrau buddsoddi'n drwm mewn gwelliannau hygyrchedd yn awr, fel y nodaf isod. Er hynny, sylweddolaf y bydd hon yn daith hir o ystyried y nifer fawr o orsafoedd sydd angen eu gwella a'r problemau hygyrchedd a etifeddwyd o'r gorffennol.

6. Gan mai fel cynlluniau adeiladu o'r newydd neu ailadeiladu helaeth y bwriadwyd cynlluniau'r Flaenraglen Rheilffyrdd, mae hyn wedi rhoi cyfle i ni ddechrau o'r newydd ac ymgorffori'r egwyddor o fynediad enghreifftiol, a dyluniadau sy'n adlewyrchu safbwyntiau grwpiau defnyddwyr ym mhob prosiect.

7. Mewn rhai achosion, fel ein Gosodiadau Mynediad Haws yng ngorsafoedd Aberdyfi a'r Fali, mae hyn yn galluogi pobl sy'n cael trafferth i symud o gwmpas i ddechrau defnyddio eu rheilffordd leol am y tro cyntaf ac yn gwneud bywyd yn haws i bawb.

### Cyfrifoldebau rheilffyrdd cenedlaethol heb eu datganoli

8. Nid oedd Deddf Rheilffyrdd 2005 yn datganoli unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru lywio gweithgareddau craidd Network Rail, sef gweithredu, cynnal a chadw ac adnewyddu seilwaith y rheilffyrdd. Cyfrifoldeb heb ei ddatganoli sy'n perthyn i'r Ysgrifennydd Gwladol yw hyn o hyd ac mae'r Adran Drafnidiaeth yn dal i gynnal y gyllideb a'r cyfrifoldeb am raglenni Network Rail. Ni throsglwyddwyd unrhyw gyllid i Weinidogion Cymru ar gyfer y gweithgareddau hyn.

9. Mae hygyrchedd rheilffyrdd hefyd yn fater sydd heb ei ddatganoli a'r Adran Drafnidiaeth sy'n dal i ysgwyddo'r cyfrifoldeb a'r cyllid. Nid yw masnachfraint bresennol Cymru a'r Gororau yn ei gwneud yn ofynnol i ddeiliad y fasnachfraint fuddsoddi mewn gwelliannau hygyrchedd. Yn ei bapur tystiolaeth i'r Pwyllgor dywed Network Rail, perchennog y seilwaith, nad yw'n ofynnol iddo wneud gorsafoedd presennol yn fwy hygyrch, gan fod gan orsafoedd hŷn "Hawliau Tad-cu", sy'n golygu nad yw gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn berthnasol iddynt. Golyga hyn nad oes unrhyw gyfrifoldeb statudol ar Network Rail i wella ei orsafoedd presennol, ac rwy'n tynnu sylw'r Pwyllgor at hyn gan ei fod yn pennu graddfa'r heriau sydd o'n blaenau. Rhaid i bob gorsaf newydd ac unrhyw un sy'n cael ei gwella'n sylweddol fodloni gofynion y Ddeddf.

10. Er nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb statudol dros wella hygyrchedd na'r cyllid cenedlaethol, cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai buddsoddi mewn gwella hygyrchedd yw'r peth iawn i'w wneud. Gwella hygyrchedd rheilffyrdd yw'r flaenoriaeth bennaf ar gyfer gwelliannau rheilffyrdd a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Helpu pobl lle mae'n cyfrif fwyaf yw fy mlaenoriaeth. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am y fanyleb ac am ariannu canlyniadau gofynnol Network Rail, ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar sail Cymru a Lloegr. Rydym wedi nodi bod gwella hygyrchedd rheilffyrdd yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Cyfnod Rheoli 5 yn ein trafodaethau gyda Llywodraeth y DU hyd yn hyn ar y Datganiad Allbwn Lefel Uchel nesaf a fydd yn pennu cyllid ac allbynnau ar gyfer y rheilffyrdd ar draws Cymru a Lloegr yn y cyfnod 2014-2018. Byddwn yn parhau i adolygu ein pwerau statudol dros y rheilffyrdd.

### Gorsafoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru

11. Hyd yn hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu 11 gorsaf newydd. Y gorsafoedd newydd ar Reilffordd Cwm Ebwy, Rheilffordd Bro Morgannwg a'r gorsafoedd newydd yn Abercynon, Llanharan a Chasnewydd yw'r rhain. Mae pob un ohonynt yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd o ran mynediad. Darparwyd mannau parcio pwrpasol i bobl anabl ym mhob un o'r gorsafoedd sydd â llefydd parcio, ac mae'r mannau gwybodaeth ar y platfformau newydd yn darparu gwybodaeth weledol a chlywedol ynglŷn â phryd y mae trenau'n cyrraedd ac yn gadael. Darperir gwybodaeth weledol hefyd i'r bobl hynny sydd ag anawsterau clywed drwy sgriniau Gwasanaethau Gwybodaeth i Gwsmeriaid.

12. Buddsoddiad ar y cyd rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Network Rail yw'r cynllun mawr sydd ar y gweill i Adfywio Gorsaf Casnewydd, sydd i'w gwblhau cyn Cwpan Ryder. Erbyn mis Medi, bydd yno orsaf newydd cwbl fodern yn cynnwys mynedfa newydd sy'n torri tir newydd, cyntedd, cyfleusterau siopa a phont droed newydd sy'n darparu, am y tro cyntaf, hygyrchedd enghreifftiol i ardal yr orsaf. Rydym hefyd yn darparu cyllid i gynorthwyo Cyngor Casnewydd i uwchraddio'r llwybr i gerddwyr dros y rheilffordd sy'n cysylltu'r canol â Devon Place ac ardal Gold Tops.

### Gorsafoedd yng Nghymru

13. Mae Trenau Arriva Cymru wedi darparu papur tystiolaeth i'r Pwyllgor. Mae'n cynnwys yr wybodaeth am y 244 o orsafoedd y mae'n eu prydlesu gan Network Rail, y mae 220 ohonynt yng Nghymru. Yn gryno, dim ond lleiafrif bach sydd â staff, a disgrifir ychydig yn llai na 50 y cant ohonynt fel rhai cwbl hygyrch i deithwyr hŷn ac anabl.
14. Nid yw'r lefel hon o hygyrchedd yn dderbyniol, ac rydym yn ei gwella ar draws tair ffrwd waith bartneriaeth bwysig:

y cynlluniau Mynediad i Bawb a Gwelliannau Rheilffordd Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr a ariennir gan yr Adran Drafnidiaeth

ein Rhaglen Gwelliannau Rheilffyrdd Cenedlaethol+ well ein hunain ar gyfer yr ardal Gydgyfeirio

y Rhaglen Gosodiad Mynediad Haws. Disgrifir pob un o'r rhain isod.

### Mynediad i Bawb

15. Yn 2005, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth y rhaglen Mynediad i Bawb er mwyn gwella mynediad i orsafoedd ar draws y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Rhaglen gwerth £370 miliwn yw hon dros y 10 mlynedd hyd at 2015. Yr Adran Drafnidiaeth a ddewisodd y gorsafoedd i'w gwella, ac mae'r rhan fwyaf o'r arian yn targedu gwella mynediad ar draws platfformau yn y gorsafoedd prysuraf. Dyma'r gorsafoedd y neilltuwyd arian ar eu cyfer yng Nghymru.

Y Fenni

Pen-y-bont ar Ogwr

Castell-nedd

Prestatyn - lle dechreuodd y cynllun ar gyfer pont droed hygyrch newydd ar y safle yn Chwefror 2010, gyda chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer toiled hygyrch sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a mynediad i'r swyddfa docynnau.

Gorsaf Gyffredinol Wrecsam

Cyffordd Twnnel Hafren

16. Ariannwyd nifer o gynlluniau llai gan grant yr Adran Drafnidiaeth hefyd, gydag arian cyfatebol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

y cynllun presennol yng Nghanol Caerdydd i ddarparu lifft i Blatfform Sero. Dyma'r man gadael ar gyfer trenau ar Reilffordd boblogaidd

Cwm Ebwy. Rhyw 3:1 yw cymhareb cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru/yr Adran Drafnidiaeth ar gyfer y cynllun hwn

gwella mynediad i'r swyddfa docynnau a thoiled sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd - Prestatyn

Caerfyrddin - gwella hygyrchedd y swyddfa docynnau

Llanelli, Cyffordd Llandudno a Machynlleth - darparu toiledau hygyrch sy'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

dolenni sain mewn 27 o orsafoedd

teclyn rheoli o bell ar gyfer lifftiau ym Mangor, Y Rhyl a Bae Colwyn, fel y gellir eu defnyddio'r tu allan i oriau staff

gwella parcio i'r anabl mewn 21 o orsafoedd

### Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd/ Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd +

17. Yn 2007, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd - rhaglen gwerth £150 miliwn i wella gorsafoedd ar draws Cymru a Lloegr. Neilltuwyd £6 miliwn i Drenau Arriva Cymru ar gyfer Cymru a'r Gororau, ac ohono neilltuwyd £4.5 miliwn i orsafoedd yng Nghymru. Ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £3 miliwn yn ychwanegol i wella'r rhaglen gychwynnol.

18. Nid oeddwn yn fodlon fod y rhaglen hon yn mynd yn ddigon pell ac roeddwn yn awyddus i ehangu nifer y gorsafoedd oedd yn cael eu gwella ac ychwanegu at gwmpas y rhaglen. Yn benodol, roeddwn am ymestyn y rhaglen i gynnwys hygyrchedd enghreifftiol lle bynnag y ceir cynllun gwella mawr, rhwyddineb cyfnewid, integreiddio arfer gorau gyda cherdded a beicio, cysylltu â rhaglenni adfywio, rhagoriaeth o ran safonau dylunio, cytgord â'r amgylchedd adeiledig a hyrwyddo cynaliadwyedd. 19. Byddaf yn cyhoeddi yn y dyfodol agos y pecyn ariannu am y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd + (RGGG+). Cynyddwyd nifer y gorsafoedd a chwmpas y prosiectau gwella fel ei gilydd. 20. Mae gwelliannau'r Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd+, yn cynnwys y canlynol:

cynlluniau i ehangu rhai prosiectau i gynnwys hygyrchedd teilwng o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i bob platfform.

Gorsaf Stryd Fawr Abertawe yw cynllun mawr cyntaf y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd+ yng Nghymru, ac mae contractwyr ar fin dod ar y safle. Mae hyn wedi cynnwys trafodaethau helaeth ac ymgynghori anffurfiol â buddiannau'r gymuned leol a grwpiau defnyddwyr, sy'n allweddol i'n dull gweithredu.

Bydd arfarniad ymarferoldeb y cynllun mawr ar gyfer Llandudno, i ddarparu adeiladau mwy modern a chyfnewidfa pob-modd newydd, yn dod i ben cyn hir a bydd hefyd yn cynnwys tramwyo-clywedol a chyhoeddiadau cyhoeddus clywadwy.

### Y Rhaglen Mynediad Haws (Pellteroedd camu ac uchderau o blatfformau i drenau)

21. Gan weithio mewn partneriaeth â Network Rail a Threnau Arriva Cymru o dan y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd+, rydym yn darparu ateb rhad ond parhaol i broblemau uchder camu hanesyddol ar lwybrau rheilffordd gwledig yng Nghymru. I ddechrau, codwyd gosodiad mynediad haws (twmpath) yn Aberdyfi ym mis Rhagfyr 2009 ac mae'n eithriadol o boblogaidd ymysg defnyddwyr trenau. Daeth ei gyfnod peilot i ben yn llwyddiannus ac erbyn hyn fe'i cadarnhawyd fel gosodiad parhaol. Cwblhawyd ail osodiad yn y Fali ar Ynys Môn ym mis Mai 2010.

22. Byddaf yn cyhoeddi manylion sut y bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno fesul cam yn y dyfodol agos. Bydd pob lleoliad yn destun ymgynghoriad manwl â'r gymuned fel y digwyddodd yn Aberdyfi a'r Fali, lle'r oedd 100% o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhai cefnogol.

23. Yn ogystal â hynny, bydd Trenau Arriva Cymru yn cyflawni pecyn ategol o welliannau mynediad oddi ar y platfform eleni lle mae twmpathau yn cael eu gosod. Unwaith eto, byddaf yn cyhoeddi'r manylion yn y dyfodol agos, eto

### Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Cymru

24. Byddaf yn cyhoeddi cynlluniau manwl cyn hir. Bydd y Pwyllgor yn prif ffrydio hygyrchedd ym mhob agwedd o'i waith. Yr Enwebiad o Gymru ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl fydd un aelod. Bydd y Pwyllgor yn gyfrifol am edrych ar amrywiaeth o faterion trafnidiaeth yn cynnwys mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Byddaf yn gofyn i'r Pwyllgor wneud trefniadau fel sail ar gyfer blaenoriaethau'r Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd+ ac adolygu ei heffeithiolrwydd wrth ddiwallu anghenion pobl.

### Hyfforddi a datblygu staff

25. Mae pob aelod o staff fy Adran Drafnidiaeth yn derbyn cyngor a chefnogaeth gan yr Uned Cymorth Cydraddoldeb o fewn yr Adran Menter a Thrafnidiaeth. Mae'r Uned yn rhoi hyfforddiant ar gymhwyso dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Dynol i waith beunyddiol pawb, ac mae hyn yn hynod o boblogaidd.

### Teithiau rheilffyrdd y Grwpiau Defnyddwyr

26. Mae'r Uned Cymorth Cydraddoldeb, ynghyd â'r Tîm Rheilffyrdd o fewn yr adran Drafnidiaeth a Threnau Arriva Cymru, wedi cynnal teithiau archwilio hygyrchedd rheilffyrdd ar gyfer cynrychiolwyr o'r Comisiwn Cydraddoldeb, Cymdeithas MS Cymru, Cymdeithas Cŵn Tywys y Deillion ac Uned Gynhwysiant ac Anabledd yr Association of Train Operating Companies. Mae'r rhain wedi galluogi archwiliad

trwyadl dros ben o rai o'r problemau hygyrchedd yn ein gorsafoedd, a darparu cyngor defnyddiol iawn gan y grwpiau defnyddwyr i'w cynnwys yn ein rhaglen welliannau. Er enghraifft, o ganlyniad uniongyrchol i sylwadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Cŵn Tywys y Deillion, mae gwelliannau i'r palmentydd botymog yng Ngorsaf Stryd Fawr Abertawe a'r cyffiniau yn cael eu cynnwys yn y cynllun. Byddwn yn parhau i weithio'n fanwl fel hyn gyda grwpiau defnyddwyr fel rhan o'u rhoi wrth wraidd datblygiadau'r dyfodol.

## Blaenoriaethau'r dyfodol

27. Yn y trafodaethau gyda'r Adran Drafnidiaeth wrth baratoi'r Datganiad Cyllid ar gyfer y Cyfnod Rheoli rheilffyrdd nesaf (o Ebrill 2014), mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi nodi bod gwella hygyrchedd yn flaenoriaeth bwysig. Yn benodol, bydd gorsafoedd Canol Caerdydd a Heol y Frenhines yn elwa o welliannau hygyrchedd, gyda hygyrchedd sy'n cydymffurfio'n llawn â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar gyfer Platfform 8 newydd y Cymoedd a phob platfform yn Heol y Frenhines fel rhan o'r gwelliannau sy'n gysylltiedig â chynllun Signalau Caerdydd.

## Casgliad

28. Mae'r papur tystiolaeth hwn yn nodi fy agwedd at fuddsoddi mewn gwella mynediad i bawb, yr wyf yn ceisio'i chynnal er gwaethaf y pwysau ar gyllideb y dyfodol, gan fy mod yn credu'n ddiffuant mai gwella hygyrchedd i bobl yw'r allwedd i ddatgloi manteision cymdeithasol-economaidd ac iechyd a lles, a hefyd gan mai dyma y dywed pobl wrthym fod arnynt eu hangen a'u bod yn ei haeddu.

29. Er nad yw ariannu gwelliannau hygyrchedd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth y Cynulliad, rwy'n cymryd camau i wella mynediad ar drenau ac mewn gorsafoedd gan fod hyn yn rhan bwysig o nod Cymru'n Un i ddarparu cymdeithas gyfiawn a thecach i bawb. Rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i'r egwyddor hon ac mae'r buddsoddiad yn y Rhaglen Genedlaethol Gwella Gorsafoedd+ yn arwydd o raddfa ein bwriad i wneud gwir welliannau i fywydau pobl. Byddaf yn parhau i gyflwyno'r achos dros ariannu'r gweithgaredd hwn yn ystod y sefyllfa heriol sydd ohoni o ran y gyllideb.

30. Fel yr eglurais, mae'n ddyddiau cymharol gynnar arnom o hyd o ran gwella hygyrchedd i reilffyrdd ac mae llawer i'w wneud o hyd. Rydym wedi cael peth llwyddiant cychwynnol, a chroesawyd yn fawr y ffaith ein bod wedi cynnwys grwpiau defnyddwyr a chymunedau. Rydym am wneud cyflawni yn fwy trefnus a chydlynol, a sicrhau bod y gwelliant terfynol yn diwallu anghenion pobl mewn gwirionedd. Rydym am ddod â chynllunwyr, hyrwyddwyr a defnyddwyr at ei gilydd i gytuno ar ddyluniad a swyddogaeth ac rydym wedi ymrwymo i wneud hynny. Edrychaf ymlaen yn fawr at gymorth y Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus newydd gyda'r gwaith hwn yn y dyfodol.